Gŵyl Ban Geltaidd 2011

www.gwylbangeltaidd.com

Cychwyn am yr Ŵyl yn y Dingle am ddau o'r gloch y bore ar Ebrill 26ain. Rhyw bendwmpian cysgu ar y cwch a chyrraedd y Dingle a'r gwesty tua hanner dydd. Ymlacio a pharatoi i fynd i Hotel Skellig i'r cyfarfod agoriadol.

Dyma'r ŵyl yn dathlu 40ain mlynedd o'i bodolaeth. Cyflwyniad gan Signor Pen a chyfarchion gan Shaun O'Brody, Ynys Manaw, a chyflwyno'r llywydd newydd eleni, Murdoch Morriston. Cafwyd cerddoriaeth gan un ar bymtheg o offerynwyr lleol. Yna daeth parti o'r Alban i'n diddori. Cafwyd toriad a bwffe. Yn yr ail ran cafwyd eitemau o Gernyw, yr Alban, Llydaw, Ynys Manaw a Chymru.

Dydd Mercher

Trefnwyd gwibdaith i Ganolfan y Blaskets – lle diddorol iawn – gyda ffilm a loan Roberts (o Bwllheli) oedd y sylwebydd ac roedd ffilm ddiddorol iawn am hanes bywyd yn Ynysoedd y Blasket.

Nos Fercher

Cafwyd Cystadleuaeth y Gân Werin yng nghwmni 6 merch o Gernyw, offerynwyr o Galway, cantorion o Ynys Manaw a grŵp Munud Olaf o Gymru yn cystadlu ar y grŵp – merched Cernyw aeth â'r wobr.

Yna daeth cystadleuaeth i'r unigolion – yr Alban, Cymru, Iwerddon a Chernyw. Manaw enillodd cystadleuaeth y grŵp ac Iwerddon gafodd y wobr i unigolion.

Dydd Iau

Trefnwyd gwibdaith i Tralî.

Nos Iau

Cystadleuaeth y Gân Geltaidd. Grŵp pop – Iwerddon, Cernyw, Manaw, Yr Alban a Chymru. Oes angen dweud mai Brigyn aeth â hi, efo'u cân Rhywun yn Rhywle – ardderchog – ac ennill 500 euro. Yn dilyn roedd Noson Lawen dan nawdd Cernyw ac Ynys Manaw – cafwyd partïon canu, dawnswyr ac offerynwyr. Noson hwyliog iawn a phawb yn mwynhau.

Tîm Dawnsio Tipyn o Bopeth efo Marion Owen yn y canol

Dydd Gwener

Trefnwyd gwibdaith i Killarney ond aros yn y Dingle a mwynhau'r dref wnes i. Tref fechan hardd ar lan y môr.

Nos Wener

Cyngerdd gan y Corau oedd yn cystadlu ar y Sadwrn yn yr Ysgol Uwchradd leol. Oes angen dweud ei bod yn noson ragorol. Yn dilyn roedd noson lawen gan y Cymry – a phum côr o Gymru – a phartïon ac unigolion yn perfformio. Heb anghofio am Gwenan Gibbard a Dylan Cernyw, ein telynorion penigamp.

Dydd Sadwrn

Diwrnod y cystadlu go iawn – corau, pibau, ffidil, telynau a dawnsio.

Canlyniadau:

Côr Cymysg – Côr yr Ynys (Môn), Côr Dre (Caernarfon)

Corau Merched – Côr Bro Nest

Môr Meibion – Parti'r Efail, Pontypridd, Hogia'r Berfeddwlad

Côr (mwya hwyliog) - Hogia'r Berfeddwlad dan eu dirprwy arweinydd, Dafydd Wyn Jones, Tynrhos, Cemaes), Parti'r Efail

Côr Gorau'r Ŵyl – Aelwyd yr Ynys.

Pawb wrth eu bodd – byddai'n dlawd iawn heb y corau o Gymru.

Dawnsio

Tenau oedd y gefnogaeth i ddawnsio gwerin – doedd ond Tipyn o Bopeth yn cystadlu yn y gystadleuaeth rhyng-Geltaidd ac roeddent yn gwir deilyngu'r wobr. (Mae'r parti yma wedi cynrychioli Cymru ar draws yr Iwerddon ers blynyddoedd – yn dawnsio ar y stryd ac yn ymweld â chartrefi'r henoed).

Dawnsio Stepio

Dim ond un dawnsiwr oedd yn cystadlu ar y ddawns stepio unigol – David Kearney. Roedd yn ardderchog. Y fo oedd fy nghyd-feirniad yn yr Adran Ddawnsio. Jack Lyons oedd yn cyfeilio iddo ar ei ffidil.

Roedd Dylan Cernyw, Ieuan ap Siôn a Gwenan Gibbard yn beirniadu yn yr adran gerdd a thelynau. Gŵyl i'w chofio!

Mae criw Cymru yn sôn am ymweld â'r Mod ar Ynys Lewis yn yr Alban ym mis Hydref. Beth am ymuno â nhw? Cewch y manylion ar y we neu gan y trefnyddion:- Tegwyn Williams, Penbedw, Ffordd y Bryn, Llanelwy, Sir Ddinbych, LL17 0DD neu Arwel Roberts, Fachwen, Ffordd Rhyl, Rhuddlan, LL18 2TT. Beth am ddod i Carlow y flwyddyn nesaf, Ebrill 10-15?